# Pennaeth Cyfathrebu a Newid Naratif

**SWYDD DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Cyflogir gan:** | Cymru Global (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn flaenorol) |
| **Yn gyfrifol i:** | Pennaeth Climate Cymru |
| **Cyflog a phensiwn:** | £42,262 y flywddyn<br><br>Byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig yn ein cynllun pensiwn, a bydd WCIA yn talu cyfraniadau pensiwn hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog crynswth (o leiaf 4%) |
| **Telerau cyflogaeth:** | 10-mis, contract cyfnod penodol, gyda'r potensial o ymestyn<br><br>(SYLWER - disgwylir i'r prosiect sy'n cael ei ariannu'n bresennol ddod i ben ddiwedd Chwefror 2027, ac un o brif flaenoriaethau y rôl hon yw arwain datblygiad strategaeth ar gyfer y rownd nesaf o gyllid aml-flwyddyn, a fyddai, os caiff ei sicrhau'n llwyddiannus, yn cynnig yr opsiwn o ymestyn y rôl mewn oriau yr wythnos a hyd y gontract) |
| **Lleoliad:** | Gweithio o bell (gyda'r opsiwn o weithio hybrid yng Nghymru Global, y Deml Heddwch, Caerdydd) |
| **Oriau:** | 3 ddiwrnod yr wythnos (22.2 awr yr wythnos)<br><br>Gall yr oriau wythnosol gwirioneddol amrywio, a fydd yn cael eu rheoli drwy ein polisïau TOIL a gweithio oriau hyblyg |
| **Lwfans gwyliau:** | 36 diwrnod, gan gynnwys gwyliau'r banc, pro-rata |
| **Teithio:** | Os bydd angen i chi deithio fel rhan o'r swydd, bydd treuliau'n cael eu talu |

## Ynghylch Climate Cymru a Cymru Global

Mae Climate Cymru (https://climate.cymru/) yn fudiad o filoedd o unigolion, ac yn rhwydwaith o gannoedd o sefydliadau o bob sector yng Nghymru, sydd wedi cael eu dwyn ynghyd trwy gyfrwng gwerthoedd a rennir, a chydnabyddiaeth bod yr argyfwng hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu brys a theg. Rydym yn credu y dylai gweithredu gael ei lywio gan wyddoniaeth a lleisiau pobl ar draws Cymru.

Cynhelir Climate Cymru gan Cymru Global (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn flaenorol). Mae Cymru Global yn elusen sy'n ysbrydoli pobl yng Nghymru i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt. Gweledigaeth Cymru Global yw bod pawb yng Nghymru yn cyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Mae Climate Cymru yn canolbwyntio ar effaith, yn ddeinamig, ac yn gyfrwng pwerus dros newid yng nghymdeithas Cymru. Rydym yn gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Rhoi pwysau ar y rheini sydd â phŵer i weithredu'n gadarn.
- Ymgysylltu'n gynhyrchiol â Llywodraeth Cymru.
- Gwneud yn siŵr bod lleisiau o ar draws Cymru yn cael eu clywed a'u cynrychioli
- Ysbrydoli a chysylltu ein rhwydwaith.
- Ehangu a chyflymu gwaith ein partneriaid
- Rhannu gwybodaeth bwysig a chyfleoedd gyda'n rhwydwaith a'r cyhoedd ehangach
- Dysgu gan Gymdeithas yng Nghymru, a thu hwnt
- Datblygu cefnogaeth gyhoeddus eang ar gyfer gweithredu
- Cynrychioli lleisiau a sefydliadau Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

## Ynghylch Dychmygwch Gweithredu

Mae Dychmygwch Gweithredu yn brosiect a anwyd o bryder a rennir am ryfel diwylliant cynyddol, pegynu cynyddol o fewn ein cymdeithas a'r angen i addasu i ecosystem wybodaeth llawer mwy dosbarthedig, esblygol.

Mae Dycgmygwch Gweithredu yn helpu cymunedau ledled Cymru i ailddiffinio naratifau cyhoeddus, i ysbrydoli gweithredu am yr hinsawdd, lleihau pegynu cymdeithasol, a gwrthod camwybodaeth. Mae'n ail-fframio gweithredu hinsawdd o naratif ffug o aberth i un o gyfle cydweithredol, gan gyflwyno straeon lleol perthnasol, sy'n seiliedig ar werthoedd wedi'u gwreiddio mewn tegwch, undod a lles cymunedol.

Cafodd y cysyniad ei gyd-greu dros gyfnod o 2 flynedd gan fudiad Climate Cymru a lleisiau cymunedau ledled Cymru, ac mae bellach flwyddyn i mewn i raglen waith ddwy flynedd arall. Mae'r gwaith yn seiliedig ar egwyddorion cyfathrebu arloesol yn ogystal â'r ymchwil naratif a

newid cymdeithasol diweddaraf. Dyluniodd prosiect peilot set o offer sy'n gwneud egwyddorion naratif a chyfathrebu arloesol yn hawdd i'w defnyddio. Bydd yn uwchsgilio ac yn hyfforddi grwpiau, sefydliadau a rhwydweithiau ledled Cymru i ddefnyddio'r offer hyn i adrodd eu straeon mewn ffordd gymhellol, ddynol a pherthnasol.

Mae'r fenter yn cysylltu lleisiau llawr gwlad â gwnaethurwyr penderfyniadau, gan ymhelaethu ar straeon lleol a gosod straeon yn strategol i yrru newid ac ailddiffinio naratifau cyhoeddus a gwleidyddol. Mae partneriaethau gyda'r rhwydwaith o dros 400 o sefydliadau, artistiaid, ymchwilwyr, a gwneuthurwyr newid yn gwella cyrhaeddiad a chyseiniant y straeon hyn, gan eu hymgorffori mewn fframweithiau diwylliannol a gwleidyddol ehangach. Mae prosiectau eraill Climate Cymru yn amrywiol, ac yn cyfrannu capasiti ychwanegol i'r tîm cyfathrebu, maent yn anelu at integreiddio ac ymgorffori offer a dull gweithredu Dychmygwch Gweithredu ac yn gweithredu fel cyfrwng i ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Mae gweminar o'r peilot sy'n amlinellu'r Offer Dychmygwch Gweithredu i'w weld yma, ac esbonnir enghreifftiau o rai o'r ffyrdd y gellir defnyddio'r offer yn y fideo hwn. Mae Dychmygwch Gweithredu yn cael ei gyllido gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

## Crynodeb y Rôl

Gan eistedd wrth galon mudiad mawr ac yn arwain prosiect arloesol, mae'r rôl hon yn cynnig cyfle cyffrous i gyfathrebwr ac arweinydd strategol gael effaith drawsnewidiol.

Bydd gan y Pennaeth Cyfathrebu a Newid Naratif oruchwyliaeth strategol o'r prosiect Dychmygwch Gweithredu a gwaith cyfathrebu a chyfryngau Climate Cymru. Bydd hyn yn cynnwys arwain tîm bach o staff cyfathrebu a gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, newyddiadurwyr, artistiaid a'r cyfryngau, gan feithrin yr holl berthnasoedd hyn i wneud y mwyaf o'r effaith. Mae'r tîm staff yn canolbwyntio ar gyflawni, a gyda cham presennol y prosiect ar y gweill ac ar y trywydd iawn, nid oes angen adolygiad strategol mawr.

Rhan bwysig o'r rôl fydd cofnodi dysgu, arwain datblygiad a chyd-greu cam nesaf y gwaith, a gyda chefnogaeth Pennaeth Climate Cymru, sicrhau cyllid ar gyfer rhaglen aml-flwyddyn ddilynol, naill ai gyda'r cyllidwyr presennol neu ddewis arall.

## Cyfrifoldebau penodol y rôl hon:

**Arweinyddiaeth strategol a goruchwylio'r prosiect**

- Arwain y gwaith o gyflawni'r prosiect Dychmygwch Gweithredu, gan sicrhau aliniad â gweledigaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol Climate Cymru.
- Darparu goruchwyliaeth strategol o weithgareddau cyfathrebu a newid naratif Climate Cymru, gan sicrhau bod y gwaith yn ganolbwyntiedig, wedi'i flaenoriaethu, ac yn cyd-fynd â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Gweithio ar y cyd â Phennaeth Climate Cymru, staff a rhanddeiliaid eraill i lunio a datblygu cam nesaf y strategaeth a chyfleoedd cyllido yn y dyfodol.

**Cysylltiadau â'r cyfryngau a gwaith wasg**

- Darparu cyfeiriad strategol a chefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cyfryngau a'r wasg, gan sicrhau dull clir a rhagweithiol o sicrhau sylw effeithiol.
- Cefnogi'r tîm i nodi a chyflwyno straeon grymus mewn sianelau cyfryngau perthnasol, gan chwyddo lleisiau cymunedau Cymru.
- Goruchwylio perthnasoedd â newyddiadurwyr a phartneriaid cyfryngol, gan gryfhau rhwydweithiau a nodi cyfleoedd i gynyddu cyrhaeddiad.
- Sicrhau bod llefarwyr yn cael eu briffio a'u cefnogi'n effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r cyfryngau.

**Datblygu naratif ac adrodd straeon**

- Goruchwylio gweithrediad ymarferol naratifau sy'n cysylltu gweithredu hinsawdd â gwerthoedd fel tegwch, cymuned a chyfle.
- Helpu i sefydlu partneriaethau â phartneriaid, artistiaid ac ymchwilwyr er mwyn datblygu a lledaenu cynnwys adrodd straeon grymus, megis fideos, erthyglau, asedau cyfryngau cymdeithasol ac arddangosiadau artistig.
- Sicrhau bod offer ac egwyddorion Dychmygwch Gweithredu yn cael eu hintegreiddio ar draws gweithgareddau cyfathrebu.

**Rheoli tîm a chydweithredu**

- Rheoli llinell y rheolwr adrodd straeon (sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith cyfathrebu ymarferol) a lle bo angen, staff eraill, gweithwyr llawrydd, a gwirfoddolwyr, gan sicrhau eglurder o ran rolau, blaenoriaethau a disgwyliadau.
- Darparu arweinyddiaeth gefnogol a chynhwysol sy'n galluogi aelodau'r tîm i gyflawni gwaith o ansawdd uchel a datblygu eu sgiliau.
- Tywys a chefnogi aelodau'r tîm i reoli llwyth gwaith a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd mewn amgylchedd cyflym.
- Meithrin diwylliant tîm cydweithredol, sy'n cael ei yrru gan werthoedd ac sy'n perfformio'n dda.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaethau**

- Adeiladu a chynnal perthnasoedd strategol, cryf ar draws rhwydwaith Climate Cymru er mwyn sicrhau'r effaith cyfathrebu fwyaf bosibl.
- Cefnogi partneriaid i alinio eu gwaith cyfathrebu â naratifau a blaenoriaethau a rennir.
- Nodi a datblygu partneriaethau sy'n ymestyn cyrhaeddiad, dylanwad ac effaith.

**Creu cynnwys a rheoli sianeli**

- Arwain, tywys a chefnogi staff i gynhyrchu cynnwys dwyieithog o ansawdd uchel ar gyfer sianelau amrywiol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, gwefannau, a datganiadau i'r wasg.

- Goruchwylio'r broses o gyflwyno strategaethau digidol a chyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar effaith.
- Sicrhau cysondeb, eglurder, ac aliniad strategol o ran negeseuon ar draws yr holl allbynnau.

**Monitro, gwerthuso ac adrodd**

- Olrhain a gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau cyfathrebu, sylw yn y cyfryngau, a gweithgareddau newid naratif.
- Darparu adroddiadau cynnydd i Bennaeth Climate Cymru, Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymru Global, a chyllidwyr.

**Cyfrifoldebau ychwanegol**

- Cynrychioli Climate Cymru a Dychmygwch Gweithredu mewn digwyddiadau allweddol, cynadleddau a fforymau cyhoeddus lle mae angen arweinyddiaeth strategol.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan y rheolwr llinell i gefnogi llwyddiant cyffredinol mentrau Climate Cymru.

## Manyleb Person

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos y priodoleddau canlynol, drwy eu cysylltu â phrofiadau a chyflawniadau perthnasol yn y datganiad cais am swydd.

**Gofynion hanfodol**

1. Dangos dealltwriaeth o genhadaeth Climate Cymru a gweledigaeth Cymru Global ar gyfer byd mwy teg, heddychlon, ac ymrwymo i hyn.
2. Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda gallu profedig i ysbrydoli ac ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd.
3. Meddylfryd strategol, gyda phrofiad o ddatblygu, blaenoriaethu ac addasu cynlluniau cyfathrebu yn seiliedig ar dystiolaeth, mewnwelediad a blaenoriaethau sefydliadol.
4. Gallu amlwg i feithrin cydweithrediad ac adeiladu partneriaethau gydag unigolion a sefydliadau er mwyn ehangu nodau cyffredin.
5. Cymhwysedd mewn rheoli prosiectau, gan gynnwys cadw at derfynau amser, rheoli cyllidebau, a chyflwyno allbynnau o ansawdd uchel.
6. Ymrwymiad i amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant, gan gynnwys profiad o gefnogi pobl o bob cefndir i gymryd rhan mewn gwaith cydweithredol.
7. Profiad o sicrhau sylw yn y wasg a gweithio gyda newyddiadurwyr, gyda'r gallu i dywys a chefnogi eraill i gyflawni gweithgareddau effeithiol gyda'r wasg.
8. Dealltwriaeth fanwl o'r dirwedd cyfathrebu digidol.
9. Profiad o ysgrifennu cynigion am arian a sicrhau cyllid grant i sefydliadau cymdeithas sifil.

10. Gallu amlwg i arwain mewn ffordd gefnogol, gydweithredol ac yn ddeallus yn emosiynol, gan adeiladu ymddiriedaeth, cynnal deinameg tîm cadarnhaol, a chreu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo'n hyderus, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu gwneud eu gwaith gorau.
11. Gallu profedig i arwain a chefnogi timau i reoli blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, gwneud penderfyniadau cadarn, a chanolbwyntio ymdrech ar y cyfleoedd sy'n cael yr effaith fwyaf mewn amgylchedd cymhleth a chyflym.

**Gofynion dymunol**

1. Rhuglder yn y Gymraeg, gyda'r gallu i ysgrifennu a chyflwyno cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.
2. Gwybodaeth fanwl am yr argyfyngau hinsawdd a natur, gan gynnwys materion cyfiawnder cymdeithasol rhyng-gysylltiedig megis cyfiawnder hinsawdd a thlodi.
3. Sgiliau perthnasol o ran creu cynnwys arbenigol (e.e. ffotograffiaeth, fideograffiaeth, newyddiaduraeth).
4. Perthnasoedd proffesiynol presennol gydag allfeydd cyfryngau, newyddiadurwyr, neu randdeiliaid sy'n berthnasol i genhadaeth Climate Cymru.
5. Cyfarwydd ag offer a fframweithiau newid naratif, gan gynnwys eu defnydd mewn gwaith ar lawr gwlad neu waith sy'n canolbwyntio ar bolisi.
6. Profiad o weithio o fewn neu ochr yn ochr â sectorau creadigol, megis cydweithio ag artistiaid, adroddwyr straeon, neu ymchwilwyr i greu cynnwys dylanwadol.
7. Gwybodaeth am gyd-destun diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol Cymru a'r DU a'i berthynas â gweithredu hinsawdd.

## Proses Ymgeisio

- Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen Gais am Swydd swyddogol Cymru Global, sydd ar gael yma.
- Byddwn yn derbyn ffurflenni cais yn unig, nid CVs neu lythyrau eglurhaol - gwnewch yn siŵr eich bod yn esbonio, gydag enghreifftiau, sut mae gennych yr holl gofynion hanfodol yn eich cais.
- Dylai'r holl ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cyfle Cyfartal. Mae'r rhain yn cael eu gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais ar ôl eu derbyn, ac nid ydynt yn cael eu rhannu gyda'r panel sy'n llunio'r rhestr fer neu gyda'r panel gyfweld.
- Dylech anfon eich cais drwy e-bost i croeso@cymru.global - Os nad oes gennych fynediad at e-bost, gallwch anfon cais papur i'r cyfeiriad a roddir ar y ffurflen gais. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ofynion mynediad eraill er mwyn cyflwyno cais.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ydy 4yh ar 15fed o Ebrill 2026.
- Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth drwy e-bost at bob ymgeisydd. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Ni allwn fod yn gyfrifol am geisiadau sydd ddim yn cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.

- Mae Cymru Global yn gweithredu recriwtio di-enw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad ymgeisydd yn ystod y broses recriwtio. Mae'r polisi hwn yn unol â'n hymrwymiad i roi terfyn ar ragfarn a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Os ydych yn cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol trwy e-bost.
- Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os byddwch yn llwyddiannus, anfonwch e-bost at croeso@cymru.global cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch gofynion.
- Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw eirdaon nes bod cynnig amodol o gyflogaeth wedi cael ei wneud.
- Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hysbysu drwy e-bost.